

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 22
Mehefin 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 28 MEHEFIN 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd

CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG AM 9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19 (gweler ynghlwm gopi o ddisgrifiad swydd ar gyfer Aelod Craffu a Chadeirydd / Is-Gadeirydd)

10am

4 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 28)

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau (copïau ynghlwm):

- (i) 13 Ebrill 2018
- (ii) 3 Mai 2018

10.05am – 10.10am

6 CYLLIDEBAU CYFUN (IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL) (Tudalennau 29 - 40)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid (copi ynghlwm) sydd yn diweddarau'r Pwyllgor am gynnydd hyd yn hyn wrth ddatblygu a sefydlu cyllidebau cyfun ar draws gogledd Cymru yn unol â gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.10am – 10.45am

EGWYL 10.45am - 11am

7 CYD-BWYLLGOR CRAFFU AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (Tudalennau 41 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) sydd yn diweddarau'r aelodau am gynnydd tuag at sefydlu cydbwyllgor craffu ar gyfer Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych er mwyn craffu ar y cyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd ystyried y cylch gorchwyl drafft a'r rheolau gweithredu ar gyfer y cydbwyllgor craffu.

11am – 11.30am

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 91 - 108)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11.30am – 11.45am

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn diweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11.45am – 12pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield
Gareth Davies
Hugh Irving
Pat Jones
Christine Marston

Melvyn Mile
Andrew Thomas
Rhys Thomas
David Williams
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

- (vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygrededd
 - Parch
 - Undod
 - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
 - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
 - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadleda 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Gwener, 13 Ebrill 2018 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gareth Davies, Hugh Irving, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cydlynnydd Craffu (RE) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE)

Yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn y cyfarfod oedd: Cyfarwyddwr Ardal: Ardal Ganolog (BJ), Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chomisiynu (CD), Cyfarwyddwr Therapiau Gwasanaethau Clinigol (GE) a'r Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol - Canolog (AK)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Pat Jones a David Williams.

Cyn dechrau'r busnes roedd yr Is-Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor yn dymuno anfon dymuniadau gorau a gwellhad buan a llawn i'r Cadeirydd.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies gysylltiad personol ag eitemau 5, 6 a 7 gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017.

Gan gyfeirio at Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych a Chynllun Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd Sir Ddinbych gofynnodd y Cynghorydd Butterfield a oedd gan yr Awdurdod bolisi'n diffinio preswylid. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau gan ddweud bod 'preswylid' yn cael ei gynnwys o fewn nifer o fframweithiau deddfwriaethol ac roedd yn rhaid ystyried ceisiadau fesul achos. Mae'n bosibl y bydd Aelodau'n dymuno ystyried cymhlethdod drwy ei gyfeirio i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

Croesawodd Cadeirydd y cyfarfod y Cyfarwyddwr Ardal: Ardal Ganolog; Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chomisiynu; Cyfarwyddwr Therapïau Gwasanaethau Clinigol; a'r Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol - Canolog; o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r cyfarfod i roi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r eitemau busnes yn ymwneud â sefydliadau a gwasanaethau iechyd.

5 PRESTATYN IACH

Rhoddodd Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chomisiynu y Bwrdd Iechyd gefndir sefydlu'r fenter Prestatyn Iach i'r Pwyllgor. Yn ystod ei chyflwyniad, dywedodd:

- Bod meddygfeydd yn sefydliadau preifat, roeddent yn amrywio o ran maint llwyth achosion cleifion. Roedd gan y meddygfeydd lleiaf yn Sir Ddinbych tua 2 fil o gleifion wedi cofrestru gyda nhw, tra bod maint y feddygfa ganolig yn y rhanbarth yn cynnwys tua 7 mil o gleifion;
- Roedd y model Prestatyn Iach, oedd yn gwasanaethu cleifion oedd wedi cofrestru gyda meddygfeydd ym Mhrestatyn, Rhuddlan, Gallt Melyd a Ffynngroyw yn ffordd newydd o ddarparu gofal meddygol sylfaenol, ymyrraeth a lles, a reolwyd yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd. Roedd yn cynnwys pedwar tîm yn y feddygfa oedd yn delio gyda rheoli achosion cronig, pumed tîm oedd yn cynnal ymweliadau â'r cartref ynghyd â thîm arall oedd yn darparu gwasanaethau meddygol dwys i gleifion yn defnyddio'r gwasanaeth cerdded i mewn;
- Roedd y gwasanaeth a reolir gan y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn yr ardal ar ôl i nifer o feddygon teulu yn yr ardal hysbysu'r Bwrdd y byddent yn ymddeol neu'n terfynu eu contractau ar gyfer darparu gwasanaethau meddyg teulu. Wrth sefydlu'r model newydd arloesol hwn ar gyfer darparu gwasanaethau sylfaenol roedd y Bwrdd hefyd wedi cynnwys dull mwy cyfannol yn y model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol a lles cyffredinol y boblogaeth;
- roedd y Gwasanaeth a dderbynnir ar hyn o bryd yn derbyn cysylltiad gan y cyhoedd tua 100k y flwyddyn, yn delio gyda chyfartaledd o 420 claf y dydd gyda thua 100 ohonynt yn cael eu gweld ar y diwrnod yr oeddent wedi cysylltu â'r gwasanaeth. Roedd y nifer o gleifion a welir yn ddyddiol yn fwy na'r cyfartaledd dyddiol ar gyfer yr Adran Argyfwng yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Roedd y cyfleuster Tŷ Nant, yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei rentu gan y Cyngor yn gyfleuster gwych oedd yn cefnogi'r model darparu gwasanaeth yn dda;

- roedd system TG claf newydd wedi'i osod yn ddiweddar oedd yn gweithio'n dda;
- Roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi archwilio'r gwasanaeth Prestatyn Iach yn ystod 2017 ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn darparu gofal diogel ac effeithiol yn gyffredinol;
- roedd yna heriau o'u blaenau, yn arbennig mewn perthynas â recriwtio staff clinigol, darparu hyfforddiant i'r sector darparwr preifat a chynnydd parhaus yn y galw am ei wasanaethau. Rhwng Ionawr a Mawrth 2018 bu cynnydd o 6% mewn apwyntiadau a chynnydd o 15% mewn ymweliadau â'r cartref gan y gwasanaeth;
- wrth symud ymlaen byddai'r ffocws ar recriwtio meddyg teulu ychwanegol ac ymarferydd nyrsio uwch. Roedd yn galonogol bod MT wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r gwasanaeth a bod nyrs yn hyfforddi i gymhwyso fel ymarferydd nyrsio uwch ar hyn o bryd. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn bwriadu recriwtio parafeddyg i gyfannu'r ystod o wasanaethau y gallai eu cynnig a phenodi Pennaeth Gwasanaeth – rheolwr gweithredol i gydlynu'r gwaith a swyddogaethau ar gyfer pob safle sy'n gweithredu o dan Prestatyn Iach;
- roedd sefydlu'r gwasanaeth arloesol hwn wedi bod yn siwrnai ddysgu, yn arbennig mewn perthynas â'r galw amrywiol ar y Gwasanaeth wrth ddarparu gofal sylfaenol ac eilaidd. Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i gysylltu ag astudiaeth a gynhelir gan Brifysgol Bangor ar ofynion hyfforddiant a mentora ar gyfer darparu gofal sylfaenol.
- roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith gyda'r trydydd sector yn ardal Prestatyn mewn perthynas â deall y mathau o wasanaethau oedd eu hangen yn yr ardal a sut y gall sefydliadau sector cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd, yr awdurdod lleol a phartneriaid trydydd sector weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y gymuned i wella iechyd a lles, hybu annibyniaeth, lliniaru arwahanrwydd cymdeithasol ac o ganlyniad lleihau'r galw am wasanaethau meddygol ymyrraeth sylfaenol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, roedd swyddogion y Bwrdd Iechyd yn:

- cadarnhau nad oeddent yn rhagweld y byddai arian yn cael ei ddargyfeirio o wasanaethau gofal sylfaenol rheng flaen i ariannu swydd Rheolwr Pennaeth Gwasanaeth. Roedd hon yn swydd oedd wir ei hangen a ddylai helpu i gydlynu a symleiddio gwaith gweinyddu a lleihau dyblygu gyda'r golwg ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen di-dor.

cydnabod er y byddai wedi bod yn fanteisiol cael Pennaeth Gwasanaeth mewn swydd yn gynt wrth sefydlu'r Gwasanaeth, roedd yna ofynion a therfynau amser eraill angen eu diwallu, gan gynnwys nifer digonol o feddygon teulu a staff meddygol eraill mewn swydd i ddelio gyda llwyth achosion cleifion, gwaith yn ymwneud â dod â 5 meddygfa i 3 tra hefyd yn uno arferion gwaith a gweinyddu i sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn

diwallu anghenion cleifion ac yn effeithiol ac effeithlon. Roedd yr holl waith hwn yn digwydd tra roedd yna argyfwng cenedlaethol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG);

- oherwydd bod hwn yn fodel newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol roedd yn cynnwys llawer o waith addysgu staff a chleifion ynglŷn â sut roedd y model yn gweithio ac nad yw cleifion o bosibl angen gweld meddyg teulu bob tro, gall apwyntiad gydag arbenigwr meddygol arall e.e. nyrs, ffisiotherapydd ac ati fod yn fwy priodol a buddiol;
- cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Prestatyn Iach yn cynnwys tîm llawn o staff ar hyn o bryd, heblaw staff Meddyg Teulu. Roedd ymarfer recriwtio i lenwi swyddi meddyg teulu gwag ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd prinder meddygon teulu ar draws y wlad yn waeth oherwydd newid mewn arferion gwaith gyda nifer cynyddol o feddygon teulu yn dewis gweithio'n rhan amser, rhai at ddibenion cydbwysedd bywyd a gwaith, tra roedd eraill yn dymuno rhoi rhan o'u hamser i arbenigedd eilaidd;
- hysbyswyd y Pwyllgor bod y swydd Ymgynghorydd Nyrsio yn swydd newydd. Byddai'r unigolyn hwn yn gweithio ar lefel uwch ac felly yn helpu i leddfur pwysau ar feddygon teulu;
- dywedwyd efallai bod canllawiau Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) yn awgrymu cymhareb meddyg teulu i glaf o 3 meddyg teulu fesul 1,000 claf, nid oedd yna feddygfa yng Ngogledd Cymru gyda 3 meddyg teulu i 1,000 o gleifion. Nod Prestatyn Iach oedd 1 meddyg teulu fesul 2,000 o gleifion;
- cadarnhawyd bod y Bwrdd Iechyd yn hyderus gyda'r model gweithredu ym Mhrestatyn. Bu'n her i'w sefydlu gan mai ond 6 mis oedd ganddynt i'w sefydlu a'i gael yn barod i wasanaethu 22k o gleifion. Roeddent yn cydnabod nad oeddent wedi rhagweld lefel yr hyfforddiant a'r gefnogaeth oedd ei angen i staff symud i fodel gwasanaeth gwahanol. Dysgwyd y gwersi hyn ar gyfer prosiectau tebyg yn y dyfodol;
- roedd y Bwrdd Iechyd yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth. Roedd sicrhau defnydd o adeilad Tŷ Nant wedi bod yn allweddol ar gyfer datblygu a chyfuno'r Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, gan fod lefel uchaf yr adeilad yn addas ar gyfer cydleoli timau arbenigol a fyddai'n gwella cyfathrebu a rhyngweithio rhwng holl ddarparwyr gofal.
- cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn gweithredu 'gwasanaeth yr un diwrnod' cerdded i mewn lle na fyddai claf yn cael ei droi i ffwrdd. Fodd bynnag, byddent angen bod yn fodlon aros, efallai am gyfnod mwy o amser, yn dibynnu ar argyfwng eu hanhwylder i gael eu gweld gan yr ymarferydd perthnasol. Roedd cleifion yn cael eu cynghori i drefnu apwyntiad hefyd. Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i gyflwyno system brysbennu;
- dywedwyd fel rhan o'r dull lles cyfannol a weithredir gan y fenter Prestatyn Iach, roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu gofal diabetes. Y nod oedd gwella'r gwasanaeth i gynnwys addysgu cleifion a oedd yn tueddu neu

mewn perygl o ddatblygu diabetes am y dewisiadau iach oedd ar gael iddynt mewn ymdrech i osgoi ymyrraeth feddygol yn nes ymlaen; a

- hysbysodd y Pwyllgor bod y Bwrdd Iechyd yn dymuno gweithio gyda Gwasanaeth Addysg y Cyngor i dynnu sylw disgyblion at yrfaeoddedd oedd ar gael iddynt yn lleol o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal.

6 PROSIECT YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH

Dywedodd Cyfarwyddwr Clinigol Therapiau Gwasanaethau Clinigol BIPBC bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar ail gam proses achos busnes 3 cham Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu safle'r cyn Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl yn ysbyty cymuned ar gyfer Gogledd Sir Ddinbych. Drwy gyflwyniad PowerPoint dangosodd yr adeilad newydd arfaethedig gan bwysleisio y byddai'r ysbyty cymuned newydd yn llawer mwy nag ysbyty yn unig:

- byddai'r model gwasanaeth arfaethedig i'w ddatblygu ar y safle yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol amlasiantaeth a fyddai'n dylunio eu gwasanaethau o amgylch anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, gan gefnogi'r ethos ail-alluogi i rymuso defnyddwyr gwasanaeth i fyw yn annibynnol drwy gydweithio gyda phartneriaid gofal cymdeithasol a thrydydd sector i wella ataliad a lles.
- byddai'n cefnogi mwy o waith integredig rhwng gofal iechyd sylfaenol a chymunedol gan ganolbwyntio ar bobl hŷn gyda golwg ar leddfu'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd, darparu gwasanaeth iechyd meddwl a chorfforol integredig i bobl hŷn, darparu gwasanaethau gofal iechyd dydd brys yr un diwrnod ac ystod o wasanaethau dydd a chlaf allanol yn agosach at gartref y claf; a
- byddai'r datblygiad mewn ffurf Campws Gofal Iechyd a fyddai'n gwneud defnydd o adeilad yr hen ysbyty Brenhinol Alexandra, adeilad rhestredig Graddfa II ar y cyd ag adeilad yr ysbyty newydd arfaethedig. Byddai hefyd yn cynnig safle gwaith integredig ar gyfer Gwasanaethau Un Pwynt Mynediad, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a swyddfeydd ar gyfer timau cefnogaeth integredig.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod:

- y Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo a chyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2017. Wedi'i gynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol oedd yr achos ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn yr adeilad newydd a darparu gwasanaethau newydd ar y safle, ynghyd â sail resymegol ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn yr adeilad rhestredig Gradd II.
- o ganlyniad i gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru, roedd cynrychiolwyr Bwrdd wedi cyfarfod swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf a Medi 2017 i drafod y cynigion. Roedd y Tîm Prosiect wedi ailgyfarfod i ymateb i heriau a nodwyd fel rhan o'r broses cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ac roedd Adolygiad Trothwy o'r achos busnes a'r

broses wedi'i gomisiynu. Roedd canfyddiadau'r Adolygiad Trothwy wedi profi'n hynod ddefnyddiol gyda golwg ar symud y prosiect ymlaen;

- Roedd Llywodraeth Cymru eisiau sicrwydd mewn perthynas â sut fyddai'r Achos Busnes Amlinellol yn cefnogi darpariaeth y cynllun strategol Byw yn Iach Aros yn Iach gan y Bwrdd Iechyd, strategaeth gweithlu wedi'i ailddiffinio a mwy o eglurder ar fanteision gwireddu'r cynllun. Roedd yr olaf yn ymwneud â'r defnydd o adeilad rhestredig presennol, drwy ddefnyddio hwn fel swyddfa yn bennaf, roedd y Bwrdd Iechyd yn hyderus y gallai sicrhau dyfodol yr adeilad a darparu gwasanaethau iechyd ychwanegol o fewn yr adeilad newydd. Nid oedd materion yn ymwneud â'r gweithlu yn unigryw i'r prosiect hwn
- Roedd gwaith ar y gweill i ail-ddrafftio'r atodiad i'r Achos Busnes Amlinellol a oedd yn manylu'r cynigion ystadau, byddai hyn yn cynnwys datganiad clir ar swyddogaeth yr adeilad rhestredig Gradd II yn dilyn buddsoddiad arfaethedig o tua £200k. Byddai yna fwy o fanylion yn yr Achos Busnes Amlinellol, cyn ei ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar y ffynonellau refeniw ar gyfer darparu gwasanaethau newydd ar y safle;
- Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ailddatblygu'r safle, roedd yr Adran Cleifion Allanol wedi adleoli i'r hen adeilad Glan Traeth ym mis Rhagfyr 2017, dylai'r gwaith o ddymchwel yr estyniad 1960au gael ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2018. Yn dilyn y gwaith hwn, byddai'r ardal a ddefnyddir gan yr hen Adran Cleifion Allanol yn cael ei ail-wynebu i ddarparu 44 gofod parcio ychwanegol, byddai mwy o waith ail-wynebu yn cael ei wneud ar y prif faes parcio a llwybrau yn cael eu diffinio'n glir gyda golau gwell yn cael ei osod i ddiogelu cleifion a staff; ac
- Unwaith y byddai'r tîm prosiect yn fodlon bod yr holl heriau a godwyd gan Lywodraeth Cymru wedi derbyn sylw digonol, byddai'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd i'w gymeradwyo ar gyfer ei ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nid oedd amserlen benodol wedi'i gosod ar gyfer hyn eto gan fod y Tîm Prosiect eisiau sicrhau bod yr holl ymholiadau wedi derbyn sylw.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor, roedd Cyfarwyddwr Ardal: Ardal Ganolog: y Bwrdd Iechyd yn

- cadarnhau eu bod yn teimlo'r un rhwystredigaeth â'r aelodau mewn perthynas â'r amser maith yr oedd y prosiect yn gymryd i ddwyn ffrwyth. Roedd y broses Achos Busnes yn broses gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn faith oherwydd ei fod yn broses tri cham. Fodd bynnag, roedd trafodaethau sylweddol wedi eu cynnal rhwng Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd yna gefnogaeth wleidyddol sylweddol i'r prosiect.
- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi profi oedi tebyg o'r blaen wrth ddatblygu prosiect Ysbyty Alltwen, oedd nawr yn agored ac yn weithredol;

- Roedd y Bwrdd Iechyd yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r prosiect er gwaethaf y ffaith ei fod yn parhau o dan fesurau arbennig ac yn wynebu pwysau ariannol difrifol;
- roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y byddai'n darparu £40miliwn tuag at gost cyfalaf y prosiect, gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu £2.3miliwn o arian referniw tuag at y prosiect (er bod £2.3miliwn yn ymddangos yn swm sylweddol roedd BIPBC yn sefydliad £1.4bn felly nid oedd yr arian referniw oedd yn ofynnol iddo ddarparu yn ormodol);
- cadarnhawyd bod y Bwrdd Iechyd yn gadarn o'r farn y dylai'r cynllun gynnwys Canolfan Iechyd a Lles o ystyried proffil amddifadedd y Rhyl; a
- Dywedwyd oherwydd cyflwr gwael yr adeilad rhestredig Gradd II a phryderon diogelwch tân, ar sail diogelwch cleifion ni ellir rhoi gwelyau cleifion mewnol yn yr adeilad;

Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd swyddogion BIPBC:

- roedd yr achos busnes presennol yn ddogfen gyhoeddus, fodd bynnag roedd yr achos busnes hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Unwaith y byddai'r achos busnes a adolygwyd wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ei gymeradwyo, byddai hefyd yn ddogfen gyhoeddus;
- Roedd yr Adolygiad Trothwy wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru trwy sefydliad annibynnol i ddarparu adolygiad cyfaill beirniadol o'r achos busnes gyda golwg ar ei gryfhau. Roeddent yn gwneud ymholiadau pa un a oedd yr adroddiad terfynol ar gael i'r cyhoedd ai peidio;
- roeddent yn deall pwysigrwydd yr adeilad rhestredig Gradd II i'r trigolion lleol yn llwyr, a dyna'r rhesymau yr oeddent yn ceisio ei gynnwys yn y prosiect ar gyfer yr Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych newydd. Oherwydd y cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â'i statws rhestredig, ni fyddai'n addas ar gyfer darparu gofal cleifion mewnol y 21ain Ganrif. O ganlyniad, roedd y Bwrdd yn cynnig ei ddefnyddio, yn dilyn rhaglen faith o ailwampio fel swyddfeydd ar gyfer y cyfleuster newydd gyda rhai gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu ar y llawr gwaelod. Byddai'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a thimau eraill a leolir yn y gymuned yn cael eu lleoli ar loriau eraill; a
- gyda'r datblygiadau mewn gwyddoniaeth a gofal meddygol yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'r ystod arfaethedig o wasanaethau cymunedol yn rhan o'r prosiect ac argaeledd tai addas, bod cyfleuster cleifion mewnol 28 gwely yn ddigonol ar gyfer anghenion y GIG yn ardal Gogledd Sir Ddinbych yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y drafodaeth dywedodd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd eu bod yn hyderus fod ganddynt nawr achos busnes cadarn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ailgadarnhawyd eu bod nhw a'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r prosiect.

Yn briffio'r Pwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt rhoi'r gorau i ddarparu gwelyau dros dro yn Inffymari Dinbych, rhoddodd swyddogion y Bwrdd Iechyd drosolwg o'r datblygiadau presennol ac arfaethedig i Wasanaethau Cymunedol y Bwrdd Iechyd yn y de a chanol Sir Ddinbych. Hysbyswyd yr Aelodau o safbwynt:

Corwen: roedd gwaith ar fin dechrau i ailddatblygu'r Ganolfan Iechyd. Roedd y gwaith hwn, i'w gwblhau erbyn yr hydref, yn rhan o fuddsoddiad £1.5miliwn yn y Ganolfan. Byddai'n cynnwys darparu dwy ystafell ymgynghori newydd i feddygon teulu'r dref, dwy ddeintyddfa newydd ac ystafell driniaeth amlbwrpas. Tra ymgymerir â'r gwaith byddai gwasanaethau'n cael eu darparu mewn llety dros dro, gyda gwasanaethau deintyddol yn cael eu darparu yn eu lleoliad presennol. Byddai cyfleusterau maes parcio yn cael eu dyrannu i gleifion sy'n mynychu'r feddygfa yn agos at yr adeilad dros dro, byddai hyn yn cynnwys awr o barcio am ddim.

Rhuthun: Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod £1.7 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd yn yr ardal yn amodol ar ddatblygu achos busnes. Nod y buddsoddiad hwn oedd gallu adleoli gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn y Clinig i Ysbyty Cymuned Rhuthun. Byddai'n hwyluso estyniad i gael ei adeiladu yn yr ysbyty a gwaith ailwampio yn yr ysbyty ei hun. Byddai'n datblygu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael yn yr ysbyty ymhellach i alluogi cydweithio rhwng gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal eilaidd, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwasanaethau'n well gyda phartneriaid trydydd sector a statudol. Rhagwelir y byddai Achos Cyfiawnhau Busnes sengl drafft yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2018. Os byddai'r prosiect yn cael ei gymeradwyo byddai'n hwyluso adleoli gwasanaethau meddyg teulu, Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Wrth edrych ymlaen roedd y Bwrdd Iechyd yn ystyried cyfleoedd ehangach o fewn ardal de Sir Ddinbych i wella gofal yn agosach at gartrefi pobl drwy gydweithio. Roedd trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal rhwng y Bwrdd a'r awdurdod lleol i archwilio cyfleoedd posibl ar gyfer gwaith integredig a allai ffurfio cam o'r datblygiad yn Rhuthun ar gyfer y dyfodol.

7 INFFYRMARI DINBYCH

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol – Canol grynodedb i'r aelodau o'r rhesymau wnaeth arwain at benderfyniad y Bwrdd Iechyd i gau 10 gwely ar y ward i fyny'r grisiau yn yr Inffymari o ganlyniad i drychineb Tŵr Grenfell. Cafodd yr Inffymari ei adeiladu ar ddechrau'r 1800au gyda 40 gwely claf mewnol, 23 gwely ar y llawr gwaelod ac 17 gwely ar y llawr cyntaf. Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd asesiad diogelwch tân cynhwysfawr o'r holl adeiladau. Roedd yr asesiad yn amlygu pryderon perygl tân yn yr Inffymari ac Ysbyty Cymuned Yr Wyddgrug. Roedd y pryderon penodol mewn perthynas â'r Inffymari yn ymwneud â'r ffaith bod llawr Ward Lleweni i fyny'r grisiau, rhan ohono wedi'i leoli'n uniongyrchol uwchben cegin yr ysbyty, yn cael ei gefnogi gan ddistiau pren. Roedd y risg yn fwy oherwydd nad oedd y rhan yma o'r adeilad wedi'i rannu'n adrannol a fyddai'n helpu i leihau neu o leiaf arafu lledaeniad tân. Pan ddaeth maint y risg i'r amlwg, bu'r Bwrdd Iechyd yn ystyried nifer o

opsiynau ar gyfer delio â'r risg, gan sicrhau diogelwch cleifion a staff tra'n achosi cyn lleied o amhariad i bawb dan sylw.

Fodd bynnag, oherwydd yr angen i sicrhau y gellir symud pob claf yn ddiogel os bydd yna dân, y dewis diogel gyda'r amhariad lleiaf y gellir ei roi yn ei le oedd lleihau'r nifer o welyau ar Ward Lleweni o 17 i 7 – gyda'r cafeat bod yn rhaid i weddill y gwelyau fod ar gyfer cleifion nad oedd angen cefnogaeth fecanyddol ar gyfer eu hanghenion symudedd os bydd angen gwacau'r adeilad.

Roedd Adran Ystadau Llywodraeth Cymru wedi cynnal yr asesiad risgiau tân ac wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â gwella'r mesurau diogelwch tân yn yr adeilad. Roedd nifer o'r argymhellion hyn wedi eu gweithredu, gan gynnwys gwaith adrannu. Yn ogystal, roedd y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu ail arolwg, mwy ymwithiol, gan ymgynghorwyr Mott McDonald. Er y disgwylir i ganfyddiadau'r arolwg hwn fod ar gael yn ystod mis Ebrill, oherwydd yr angen i gymryd holl ragofalon angenrheidiol i ddiogelu peirianwyr, cleifion a staff, rhag ofn bod asbestos yn yr adeilad a'i aflonyddu yn ystod y gwaith arolwg, bu ychydig o lithriad. Fodd bynnag, dylai adroddiad yr ymgynghorydd fod ar gael ym mis Mai 2018.

Mewn ymgais i reoli effaith y golled dros dro o 10 gwely yn yr Inffymari, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ychwanegu 5 gwely dros dro yn Ysbyty Cymuned Rhuthun, gyda gwaith arall yn cael ei wneud yn y gymuned ar gyfer gofal a chefnogaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhagweithiol yn cysylltu â staff mewn perthynas â newidiadau i batrymau gwaith, fodd bynnag roedd wedi profi pwysau staffio yn ymwneud â'r gwelyau ychwanegol yn Ysbyty Rhuthun oedd wedi arwain at yr angen i ddefnyddio staff nyrsio asiant a chronfa i ddarparu gofal. Roedd meddygfeydd Rhuthun wedi bod yn hynod gefnogol ac wedi cynyddu argaeledd ar gyfer y gwelyau cleifion preswyl yn yr ysbyty.

Er bod yna lai o welyau ar gael yn Inffymari Dinbych ar hyn o bryd, dywedodd y Bwrdd Iechyd rhwng ysbytai Dinbych a Rhuthun bod yna welyau cleifion preswyl mewn ysbyty cymuned ar y mwyafrif o ddyddiau i gleifion naill ai fynd yno yn uniongyrchol neu eu trosglwyddo o'r ysbytai cyffredinol dosbarth. Cadarnhaodd swyddogion y Bwrdd Iechyd bod meddygfeydd yn Ninbych yn gefnogol iawn i'r Inffymari a'r gwasanaethau a ddarperir yno.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu cefnogaeth a chynghor parhaus i staff yn yr Inffymari, gyda sesiynau briffio misol rheolaidd yn cael eu cynnal iddynt. Roedd sesiynau hyfforddiant rheolaidd hefyd yn cael eu cynnal i staff ar reoli'r cynlluniau gweithredu, asesiadau risg, diogelwch tân a gweithdrefnau gwacau. Mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliad, roedd swyddogion y Bwrdd wedi cwrdd â Chyfeillion Ysbyty yn yr Inffymari, cynghorwyr lleol ac eraill, pob un yn cefnogi ymdrechion y Bwrdd i ddod o hyd i atebion i'r risgiau a nodwyd a gweld y sefydliad yn gweithredu'n llawn gynted â phosibl.

Dyma ymateb cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau'r aelodau:

- cadarnhawyd bod gan Inffymari Dinbych 40 gwely claf preswyl, cyn cau 10 dros dro ar sail diogelwch tân. O'r 40 gwely roedd 6 ar gyfer gofal resbiradol, 12 ar gyfer Gofal Pobl Hŷn, gyda'r gweddill yn cael eu rheoli gan

feddygfeydd Dinbych. Roedd y cyfanswm yn cynnwys gwelyau ar y Ward Macmillan nad oedd eu hangen bob tro ar gyfer gofal lliniarol ac o ganlyniad roeddent ar gael ar gyfer mathau eraill o ofal. Roedd Meddygfa Beech House nad oedd yn defnyddio'r Inffymari ar gyfer gofal meddygol gan feddyg teulu yn defnyddio'r gwelyau ar y Ward Macmillan;

- dywedwyd bod y dewis o gau'r gegin a chludo bwyd i'r Inffymari wedi'i ystyried fel ateb posibl i'r risgiau a nodwyd yn hytrach na gorfod cau gwelyau dros dro. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddewis ymarferol gan y byddai angen offer fel oergelloedd a rhewgelloedd ar y safle felly ni fyddai'r risg o dân yn lleihau'n sylweddol i allu parhau i ddefnyddio'r gwelyau;
- dywedwyd y byddai'n annhebygol iawn y byddai gan yr Inffymari 17 claf yn gallu symud yn ddigon da ar unrhyw adeg i allu eu lleoli ar ward ar y llawr cyntaf;
- cadarnhawyd bod pwysau staffio yn broblem barhaus yn yr Inffymari, ond nid oedd hyn yn unigryw i'r Inffymari roedd yn broblem a brofwyd ar draws y GIG;
- cadarnhawyd bod cyfanswm o bedwar aelod o staff wedi gadael Inffymari Dinbych ers y Nadolig, 2 wedi sôn am eu bwriad i adael cyn i'r gwelyau gau dros dro. Roedd y ddau arall wedi gadael oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol, er bod un wedi symud i ysbyty tebyg arall gerllaw. Yn naturiol roedd nifer o staff yn bryderus am y dyfodol oherwydd sefyllfaoedd tebyg yn Ysbyty Brenhinol Alexandra, y Rhyl a'r cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd yn recriwtio ar gyfer ysbytai Dinbych a Rhuthun ar hyn o bryd ac roedd yna 'Ddiwrnod Recriwtio - Ysbyty Cymunedol' wedi'i drefnu ar gyfer 28 Ebrill 2018;
- hysbyswyd y Pwyllgor bod Inffymari Dinbych yn flaenllaw yn yr 'Ymgyrch Parlys Pyjamas' a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cael pobl allan o'u dillad nos ac wedi gwisgo fel rhan o'u hadferiad ac ail-allu;
- cadarnhawyd nad oedd yna brinder gwelyau cymuned yn Ardal Ganolog y Bwrdd Iechyd, oedd yn cynnwys Conwy a Sir Ddinbych, Ysbyty Glan Clwyd ac ysbytai aciwt eraill oedd â phrinder gwelyau;
- cadarnhawyd nad oedd gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ailagor y 10 gwely oedd wedi cau dros dro yn yr Inffymari, os a phan fyddai'r amser yn iawn. Roedd yn ymwybodol ei fod angen bod yn agored am ddyfodol Inffymari Dinbych ac angen ymgysylltu â dinasyddion a'r Cyngor ar anghenion meddygol ar gyfer ardal Dinbych yn y dyfodol;
- dywedwyd bod adroddiad asesiad risgiau tân Ystadau Llywodraeth Cymru wedi'i rannu gyda'r Cyngor. Nid oedd swyddogion y Bwrdd Iechyd yn rhagweld unrhyw broblemau yn ymwneud â rhannu adroddiad yr ymgynghorwyr gyda'r Cyngor unwaith y byddai ar gael. Fodd bynnag, roeddent yn dweud y byddai'r adroddiad hwn yn adroddiad technegol iawn;

- cadarnhawyd bod pob ysbyty gyda'r gwelyau yn llawn, oedd yn ei gwneud yn anodd weithiau trosglwyddo cleifion o'r ysbytai aciwt i'r ysbytai cymuned;
- dywedwyd bod yna adegau oherwydd prinder staff pan fyddai'r Metron yn cael ei galw i weithio ar y wardiau, roedd hyn fel arfer ar adegau pan oedd lefelau uchel o salwch staff;
- cadarnhawyd bod yr Inffymari yn parhau i weithredu uned famolaeth o dan arweiniad bydwaig. Er nad oedd yn cael ei ddefnyddio lawer roedd yn bwysig oherwydd y gall person ifanc wedi'i eni yn yr Inffymari ymgeisio am ysgoloriaeth i fynychu'r brifysgol;
- bod meddygon teulu yn Ninbych wedi eu halinio i glwstwr meddygon teulu'r Canol a'r De o'r Bwrdd Iechyd. Strategaeth y Bwrdd Iechyd oedd darparu gwasanaethau mor agos â phosibl i gartref y claf, o ganlyniad roedd ystod o wasanaethau'n cael eu darparu yn Inffymari Dinbych;
- cadarnhawyd bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar ei Strategaeth Gymunedol ar hyn o bryd fyddai'n cynnwys llunio ysbytai cymuned ar gyfer y dyfodol. Byddai'r Cyngor yn cael cyfle i gyfrannu at y strategaeth hon drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC); a
- dywedwyd bod y Bwrdd Iechyd yn awyddus i drafod gyda Phrif Weithredwr y Cyngor sut y gallai'r Bwrdd a'r Cyngor ymgysylltu ar y cyd gyda chymunedau lleol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod i ofyn i'r Bwrdd Iechyd dderbyn gwahoddiad i sesiwn Briffio'r Cyngor yn y dyfodol gydag aelodau etholedig ar ei Strategaeth Gymunedol ar lunio ysbytai cymuned yn y sir yn y dyfodol.

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Atgoffodd y Pwyllgor bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu i'w gynnal yn y Rhyl i ymweld ag uned Un Pwynt Mynediad yn Nhŷ Russell.

Amlygodd y Cydlynnydd Craffu'r dair eitem ar y rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Partneriaeth mis Mai:

- Strategaeth Digartrefedd a Chynllun Atal
- Cyllidebau Cyfun (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a
- Chyllidebau Cefnogi i Bobl sy'n Gymwys ar gyfer Cynllun Gofal a Chefnogaeth.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau bod yr eitemau ar gyllidebau digartrefedd a chefnogaeth yn sylweddol, felly mae'n bosibl y bydd y

Pwyllgor yn dymuno gohirio'r eitem ar gyllidebau cyfun nes y cyfarfod ym mis Mehefin.

Gofynnodd y Cynghorydd Butterfield i'r grant digartrefedd £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru gael ei gynnwys yn yr adroddiad digartrefedd.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau y Pwyllgor bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn disgwyl i un o'r adroddiadau ar y gwersi a ddysgwyd ynglŷn â Ward Tawelfan gael ei gyhoeddi ar 3 Mai 2018. Cytunodd y Pwyllgor i alw cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau arbennig o fewn wythnos o'i gyhoeddi er mwyn ystyried yr adroddiad yn llawn. Hefyd, cytunwyd y dylai'r cyfarfod arbennig gael ei gynnal yn y Rhyl er mwyn ymweld â safle'r ysbyty cymuned Gogledd Sir Ddinbych arfaethedig.

Wrth gyfeirio'n ôl at yr adroddiad dywedodd y Cydlynnydd Craffu:

- atodiad 3 - Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet – er gwybodaeth ac
- atodiad 4 yn rhoi diweddariad ar benderfyniadau'r Pwyllgor.

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi gofyn i gyfarfod mis Medi gael ei newid o 13 i 20 er mwyn iddi allu mynychu. Cytunodd y Pwyllgor i'r gohiriad.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod:

(i) Cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor;

(ii) Galw cyfarfod arbennig ar gyfer yr wythnos yn dechrau 10 Mai 2018 i adolygu adroddiad Tawelfan a

(iii) Newid dyddiad mis Medi'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau i 20 Medi.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Irving fod ganddo gyfarfod yr wythnos ddilynol ar gyfer paratoi rhaglen ar gyfer llinellau ymholiad Her Gwasanaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.04

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 3 Mai 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd, yn y Gadair)

Yr Aelod Cabinet Arweiniol – roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn bresennol ar gyfer Eitemau 4 a 5 ar y Rhaglen

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Glenn Swingler, Tony Thomas a Cheryl Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd (LD), Rheolwr Tîm - Datrysiadau Tai a Chefnogi Pobl (CO), Pen Reolwr: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (CCN), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

PWYNTIAU O RYBUDD

- (i) yn absenoldeb y Cadeirydd - y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, fe wnaeth yr Is-Gadeirydd – y Cynghorydd Emrys Wynne gadeirio'r cyfarfod
- (ii) cyfleoedd y Cydlynnydd Craffu werthfawrogiad y Cynghorydd Chamberlain-Jones am yr holl negeseuon a gafodd dros yr ychydig wythnosau diwethaf, a dymunodd y Pwyllgor yn dda iddi ac adferiad buan
- (iii) croesawyd pawb a oedd yn bresennol a rhoddwyd sylw arbennig i Judith Greenhalgh, y Prif Weithredwr, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Hugh Irving a David Williams a Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau)

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWEITHREDU ATAL DIGARTREFEDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol), yn diweddarau aelodau ar gynnydd gweithredu Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, ar gais y Pwyllgor yn ei gyfarfod Tachwedd 2017. Atgoffodd aelodau o'r newidiadau mawr a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r ffocws ar fesurau atal ac ymyrryd o ran digartrefedd, gan dynnu sylw at y ffaith bod y broblem wedi'i dwysáu oherwydd caledi parhaus a newidiadau lles, yn cynnwys Credyd Cynhwysol.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y diweddariad a'r camau gweithredu allweddol dros y ddwy flynedd nesaf, fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, a ymgorfforodd y camau gweithredu a oedd yn ofynnol yn Strategaeth Atal Digartrefedd Sir Ddinbych a Chynllun Blynyddol Atal Digartrefedd / Cefnogi Pobl Sir Ddinbych, gyda ffocws ar feysydd blaenoriaeth, fel yr argymhellir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Pwysleisiwyd yr angen i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau mewnol ac allanol, er mwyn cyflawni'r nodau hynny.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Rheolwr Tîm Datrysiaid Tai a Cefnogi Pobl, a Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd -

- gadarnhau bod arian grant Cefnogi Pobl i fynd i'r afael â digartrefedd wedi'i ddiogelu ar gyfer 2018/19 a byddai'n parhau y tu hwnt i hwnnw – fodd bynnag, fel rhan o'r newidiadau cyllid arfaethedig yn y dyfodol, roedd mwy o bwyslais ar ymyrraeth yn cael ei ragnodi gan Lywodraeth Cymru ac roedd ansicrwydd ynghylch pwy fyddai'n dosbarthu'r 'uwch grant' a sut y byddai'n cael ei ddyrannu
- cydnabod bod materion gyda sefydliadau eraill sy'n cael eu sefydlu fel elusennau digartrefedd, ac roedd y Cyngor a phartneriaid yn gweithio gyda nhw er mwyn cynnig hyfforddiant ar sut i ddelio â'r materion a godwyd ac ategu at y Strategaeth Digartrefedd, gan dynnu sylw at y llwybr clir i'r rhai sydd angen cefnogaeth – roedd prosiectau Cefnogi Pobl yn cael eu monitro'n dda gan Lywodraeth Cymru ac yn cael eu rheoli o fewn llwybr i benderfynu ar y darparwr gorau ar gyfer unigolyn/teulu
- rhoi gwybod bod gwasanaethau atal digartrefedd a gomisiynwyd gan Gefnogi Pobl yn cael eu lleoli mewn ardaloedd gwledig a threfol, a chytunwyd i gylchredeg copi o'r Cyfeirlyfr o Wasanaethau i aelodau'r Pwyllgor; cyfeiriwyd hefyd at y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu Fforwm Digartrefedd aml-asiantaeth, yr oedd croeso i aelodau ei fynychu
- egluro rôl y 'Llywiwr Cymunedol' sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd, gydag un Llywiwr Cymunedol wedi'i ddyrannu'n rhannol i ddigartrefedd, gyda ffocws ar Gredyd Cynhwysol - gan gynnig cyngor a chefnogaeth ymyrraeth gynnar gyda phresenoldeb yng nghanolfan waith y Rhyl i gyfeirio unigolion lle bo angen, gan sicrhau bod materion yn cael sylw yn ystod y camau cynnar i atal digartrefedd
- egluro ei bod yn anodd penderfynu ar ffigurau penodol digartrefedd, o ystyried y nifer hynny gydag ansicrwydd tai, gyda rhai unigolion nid yn byw ar y strydoedd, ond yn cysgu ar sofffa/aros gyda ffrindiau – roedd tua 60 achos yr wythnos yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor a oedd yn ddigartref/mewn perygl o fod yn ddigartref

- ymhelaethu ar y gwaith a wnaed i nodi'r unigolion/teuluoedd hynny a fyddai'n cael eu heffeithio gan Gredyd Cynhwysol yn ystod y camau cynnar, a thargedu cymorth i atal digartrefedd – roedd yr holl staff atal digartrefedd, yn cynnwys y rhai hynny mewn gwasanaethau a gomisiynwyd, wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Credyd Cynhwysol er mwyn cefnogi'r bobl hynny yn yr amgylchiadau hynny'n effeithiol, ac roedd y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth yn hynny o beth
- cydnabod efallai nad oedd y grwpiau penodol â'r sgiliau hanfodol neu'r mynediad gofynnol at TG, o ran Credyd Cynhwysol, a bod gwaith yn parhau i gefnogi'r unigolion hynny; nodwyd hefyd bod mwy o deuluoedd sy'n gweithio â phobl ifanc yn cael eu heffeithio, ac roedd adborth yn tynnu sylw at eu ffafriaeth o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a digidol ar gyfer cael gafael ar wasanaethau a rheoli budd-daliadau
- rhoi sicrwydd ynghylch llety dros dro penodol, ond tynnwyd sylw at yr anawsterau o ganfod llety o ansawdd uchel, dros dro ac addas, i fodloni anghenion unigolion a bod cynlluniau i wneud astudiaeth ddichonoldeb ar lety dros dro; roedd gwaith yn parhau gyda darparwyr/landlordiaid i wella ansawdd y llety ac atal rhag cael eu troi allan
- tynnu sylw at yr anawsterau o ymgysylltu â phobl ifanc i atal digartrefedd mewn pobl ifanc, ac adroddwyd ar astudiaeth ddichonoldeb ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddarparu llety o ansawdd uchel ar gyfer tua phump o bobl ifanc ym mhob ardal sirol, yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, a fyddai'n lleihau'r angen am lety Gwely a Brecwast
- ailadrodd y gallai unigolion gyflwyno eu hunain fel bod mewn risg neu'n ddigartref i'r Cyngor, a byddent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Cefnogi Pobl, a chyfeiriwyd unigolion hefyd drwy asiantaethau eraill fel Cyngor ar Bopeth - yn dilyn uniad Timau Cefnogi Pobl a Datrysiadau Tai, roedd ymateb y Cyngor yn llawer cyflymach ac roedd y gwasanaeth yn cael ei hysbysebu'n rheolaidd drwy Bwyntiau Siarad
- egluro'r defnydd o gyflwyno trwyddedau bws i unigolion, a oedd yn gytundeb dwy ffordd ar draws ardaloedd awdurdod cyfagos.

Ar ddiwedd y drafodaeth, roedd aelodau'n awyddus i gael adroddiad cynnydd pellach mewn tua chwe mis er mwyn parhau i fonitro cynnydd ar weithrediad o'r Cynllun. Teimlai Aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol i adroddiadau'r dyfodol gynnwys mwy o fanylder ynghylch nifer benodol unigolion/teuluoedd a nodwyd fel digartref, neu mewn perygl o ddigartrefedd. Gobeithiwyd hefyd y byddai rhagor o fanylion ynghylch y newidiadau ariannu arfaethedig ar gael gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad -

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod i -

- (a) *gefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;*
- (b) *nodi sicrwydd fod cynlluniau'n cael eu datblygu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r bwriad posibl yn y dyfodol i ddiddymu'r sicrwydd a roddir i gyllid Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ar gyfer gwaith atal digartrefedd, a*

(c) *gofyn am gyflwyno adroddiad cynnydd pellach ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018.*

Ar y pwynt hwn (11.00 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

5 CYLLIDEBAU CEFNOGI I BOBL AG ANGHENION GOFAL A CHEFNOGAETH CYMWYS

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Chymorth a'r Pen Reolwr: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn ymwneud â newidiadau i ddyraniad cyllid i unigolion sy'n gymwys am gynllun gofal a chymorth wedi'i reoli yn Sir Ddinbych. Roedd y newidiadau mewn prosesau a dull o ran dyrannu arian wedi'i wneud yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn cynyddu dewis, llais a rheolaeth yr unigolyn a gefnogir.

Fe wnaeth yr adroddiad ddangos camau at ddull newydd gyda staff yn cael sgysiaid gwahanol gyda dinasyddion, sy'n cael eu disgrifio fel arfer fel sgysiaid 'beth sy'n bwysig' - gan holi beth oedd yn bwysig iddyn nhw a sut roeddent yn dymuno cyflawni eu canlyniadau dymunol, yn hytrach na beth oedd yn bod gyda nhw, i benderfynu a oeddent yn gymwys am ofal a chymorth drwy gymhwyso'r olwyn adnoddau. Lle nad oedd modd cyflawni canlyniadau gofal cyflawn, byddai cyllidebau cymorth yn cael eu darparu mewn un o dair ffordd (1) cyllideb wedi'i hunan-reoli (taliad uniongyrchol), (2) cyllideb trydydd parti wedi'i rheoli (broceriaeth), a (3) cyllideb wedi'i rheoli gan awdurdod lleol, a chydabuwyd y byddai llawer o bobl hŷn yn dal eisiau pecyn gofal cartref traddodiadol wedi'i reoli gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, lle dyrannwyd arian drwy daliad uniongyrchol i unigolion, gellid ei ddefnyddio'n greadigol, ar yr amod bod y canlyniadau dymunol ac y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni, e.e. prynu gwasanaethau mewnol, cyflogi aelodau teulu, a thalu am docyn awyr/tymor i aelod teulu roi gofal seibiant. Os byddai cyllidebau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gellid cyflawni canlyniadau mewn ffordd well a gallai arwain at ostyngiadau cost mewn rhai achosion. Yn olaf, cyfeiriwyd at y newidiadau system gofynnol a fyddai'n effeithio ar staff gofal cymdeithasol, swyddogion cyllid a gwasanaethau a darparwyd cymorth eraill, yr oedd angen eu rheoli'n addas.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- gyfeirio at y potensial o system broceriaeth gofal laith Gymraeg, i gysylltu â gofalwyr, a chydabuwyd nifer y siaradwr Cymraeg ar draws y sir gyfan, gyda galw mewn trefi mawr yn ogystal ag ardaloedd gwledig
- adrodd ar gamau diogelu i amddiffyn yn erbyn camreoli arian, gyda gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli'n fewnol ar gyfer taliadau uniongyrchol a dalir bob mis – nododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) y dylid adolygu cyllidebau yn y chwe mis cyntaf; roedd y cynllun gofal a chymorth yn manylu ynghylch canlyniadau penodol a fyddai'n cael eu hasesu drwy'r broses adolygu a byddai disgwyliadau'n cael eu hegluro i unigolion a monitro trylwyr o'r contract

yn digwydd. Os canfyddir bod arian wedi'i gamddefnyddio, roedd dull ar gyfer adfachu

- cadarnhau nad oedd taliadau uniongyrchol wedi'u hyrwyddo'n dda hyd yn hyn, gyda thua 90 allan o 1500 o unigolion yn cael taliadau uniongyrchol; roedd y mwyafrif o'r rhai hynny a gafodd daliadau uniongyrchol yn oedolion ieuengach gydag anabledau cymhleth, ond roedd esiamplau lle gellid bodloni anghenion pobl hŷn gartref, gyda chymorth y teulu a gofal cymdeithasol, yn hytrach na lleoliad cartref gofal preswyl, gan roi mwy o ddewis felly i'r unigolyn
- rhoi gwybod bod opsiynau i godi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, ac mai taliad uniongyrchol fyddai'r sefyllfa ddiodyfyn o'r cychwyn cyntaf (os yw'n addas), i'r rhai hynny sy'n gymwys yn dilyn asesiad, a gellid cael sicrwydd o weithrediad buan systemau a gweithdrefnau addas sydd yn eu lle
- egluro'r defnydd o'r olwyn adnoddau fel offeryn i sicrhau dull yn seiliedig ar asedau, gan wneud y gorau o gyfraniad cryfderau pobl a'r cymorth a allai fod ar gael yn eu teulu a'r gymuned; roedd unigedd yn fater allweddol ac roedd yr Un Pwynt Mynediad a Phwyntiau Siarad yn allweddol i gysylltu pobl unig, a oedd hefyd yn ffocws i'r Llywiwr Cymunedol
- egluro os nad oedd unigolyn yn gymwys ar gyfer gofal cymdeithasol a chynllun gofal a chymorth wedi'i reoli, gall fod yn bosibl o hyd mewn amgylchiadau penodol i gynnig taliad uniongyrchol ar gyfer cyfarpar fel mesur ataliol
- ailadrodd bod tri opsiwn cyllideb cymorth i fodloni anghenion unigolion cymwys – os nad oedd unigolyn â'r sgiliau angenrheidiol neu'r gallu meddyliol i reoli taliad uniongyrchol, byddai system broceriaeth trydydd parti'n darparu lefel o gymorth i'r unigolyn hwnnw a rhywfaint o annibyniaeth. Roedd y trydydd opsiwn yn darparu ar gyfer cyfrifon a reolwyr gan awdurdod lleol. Byddai dewis mwyaf addas i'r unigolyn yn ffurfio rhan o'r sgwrs 'beth sy'n bwysig' gychwynnol – roedd pob opsiwn yn cynnwys cynllun gofal a chymorth gyda chanlyniadau wedi'u nodi'n glir
- cytuno i ddarparu adroddiad gwybodaeth ar Grant Cyfleusterau i'r Anabl/Gwasanaeth Addasiadau'n amlinellu proses y Cyngor ar gyfer delio â cheisiadau grant, a'i berfformiad wrth brosesu a darparu addasiadau cartref sy'n gysylltiedig â grant (i gynnwys gwybodaeth am y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio, y nifer sy'n manteisio ar ei wasanaethau a manylion cyfraniad ariannol y Cyngor tuag at y gwasanaeth).

Roedd Aelodau'n awyddus i adolygu effaith y newidiadau a chynnydd wrth ddatblygu, hyrwyddo a chyflwyno cyllidebau cymorth i bobl gymwys mewn tua deuddeg mis. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys arolwg boddhad defnyddwyr gwasanaeth ac astudiaethau achos fel esiamplau.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn -

- (a) *cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y newidiadau i'w gwneud;*
- (b) *wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*

- (c) *gofyn am adroddiad cynnydd ar Gyllidebau Cymorth i Bobl ag Anghenion Gofal a Chymorth cymwys, i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym Mai 2019, a*
- (d) *gofyn bod adroddiad gwybodaeth ar Grant Cyfleusterau i'r Anabl/ Gwasanaeth Addasiadau'n cael ei roi i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf ym Mehefin 2018.*

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth -

- cadarnhawyd y byddai adroddiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor o dan eitemau rhaglen blaenorol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith
- cytunodd aelodau i ganslo'r cyfarfod arbennig a drefnwyd ar gyfer 11 Mai i drafod canfyddiadau adroddiad HASCAS ar Ward Tawelfan yn Ysbyty Glan Clwyd, gan nad oedd y Bwrdd lechyd mewn sefyllfa i anfon cynrychiolwyr. Oherwydd maint a natur yr adroddiad, teimlai aelodau y byddai'n fwy addas cyfarfod ar sail anffurfiol i'w adolygu a ffurfio cwestiynau er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod y dyfodol gyda chynrychiolwyr Bwrdd lechyd. Cytunwyd cynnull cyfarfod adolygu 10.00 am dydd Mercher 16 Mai 2018 yn Neuadd y Sir, Rhuthun, a thra na fyddai'n gyfarfod cyhoeddus, byddai pob cynghorydd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol. Nododd yr Aelodau hefyd y byddai'r Bwrdd lechyd yn trafod canfyddiadau'r adroddiad 12 Gorffennaf 2018 ac felly ni fyddai disgwyl iddynt fod mewn sefyllfa i anfon cynrychiolwyr i gyfarfod y Pwyllgor hyd nes ar ôl y dyddiad hwnnw
- ail-gadarnhawyd eitemau ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod Mehefin, ond nodwyd efallai nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud ar y Bartneriaeth TCC er mwyn rhoi adroddiad ystyrion ar yr adeg honno - byddai'r Cydlynnydd Craffu'n gwneud ymholiadau pellach ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau yn hynny o beth
- nodwyd nad oedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfeirio unrhyw faterion at y Pwyllgor yn ystod eu cyfarfod yr wythnos flaenorol, ac
- yn absenoldeb y Cadeirydd, a oedd yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol, ceisiwyd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer cael rhywun arall dros dro. Fe wnaeth y Cynghorwyr Joan Butterfield ac Emrys Wynne ddatgan diddordeb, ac yn dilyn pleidlais gyfartal, fe wnaeth y Cynghorydd Wynne ildio ei ddiddordeb o blaid y Cynghorydd Butterfield.

PENDERFYNWYD –

- (a) *yn amodol ar ychwanegu'r eitemau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, i gymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*
- (b) *phenodi'r Cynghorydd Joan Butterfield fel cynrychiolydd dros dro'r Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol, nes y bydd y Cadeirydd yn dychwelyd.*

7 **ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Fe wnaeth y Cadeirydd adrodd ynghylch ei bresenoldeb diweddar mewn cyfarfod o'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, lle nodwyd mai'r unig gynrychiolwyr a oedd yn bresennol oedd y rhai o ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Tynnwyd sylw at yr angen am gynrychiolaeth ehangach o'r ysgolion hynny sy'n cynnig Cymraeg fel ail iaith, o ystyried bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae i helpu i fodloni'r targed o siaradwyr Cymraeg cynyddol. Rhoddwyd sylw arbennig i Ysgol Emmanuel, ymhlith eraill.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Mehefin 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Bobby Feeley / Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad:	Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Teitl:	Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Diweddariad Cyllideb Gyfun

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu diweddariad pellach i aelodau'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar waith sy'n datblygu i sefydlu cyllidebau cyfun ar draws Gogledd Cymru fel bo'r angen ar gyfer swyddogaethau penodol yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys gweithredu swyddogaethau llety cartrefi gofal.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Fel uchod ac i ymateb i gais y Pwyllgor fis Tachwedd diwethaf i gael diweddariad am gyllidebau cyfun.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.
- 3.2 Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad diweddaraf a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu i gynhyrchu gwybodaeth ariannol rhanbarthol (cronfa rhannu heb risg).

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Roedd adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor (2 Tachwedd 2017) yn nodi nifer o ganlyniadau neu ddatblygiadau yn y rhanbarth o ran y rhaglen integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd. Roedd cytundebau allweddol a adroddwyd yn cynnwys:

- ***Datblygu cytundeb integreiddio rhanbarthol sy'n dynodi ymrwymiad pob partner i gydweithredu ac integreiddio gwasanaethau lle bo'n briodol.***
- *Datblygu cytundeb partneriaeth ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol*

- 4.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau penodol gael eu cefnogi gan greu cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol ac iechyd. Mae wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth i hyrwyddo integreiddio fel dull o gryfhau darpariaeth gwasanaeth. Mae'r dystiolaeth i gefnogi hyn yn gyfyngedig ac mae sylwadau wedi'u mynegi o'r blaen ar lefel rhanbarthol ac i aelodau etholedig yn lleol, fodd bynnag mae'n dal i fod yn ofyniad dan y ddeddfwriaeth. Nid yw'r Ddeddf yn benodol o ran graddfa 'cronfa' – e.e. un cyngor gydag un bwrdd iechyd,

neu un gronfa ar draws pob cyngor yn y rhanbarth gyda'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd gan y Gweinidog a gafwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn ei gwneud yn glir mai'r disgwyliad yw y dylai'r gronfa fod yn rhanbarthol ac nid is-ranbarthol.

- 4.2 Byddai cyllideb gyfun sy'n cynnwys swyddogaethau llety cartrefi gofal ar draws y rhanbarth yn sylweddol. Amcangyfrifwyd mai gwerth gros cyfraniadau awdurdod lleol oedd tua £73m yn 2016, gyda £20m arall wedi'i amcangyfrif fel y cyfraniad iechyd ar gyfer nyrsio a gofal nyrsio wedi'i ariannu. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd hyd at ddiwedd 2017/18. Felly mae graddfa bosibl unrhyw gronfa ranbarthol yn sylweddol.
- 4.3 Ym mis Tachwedd, adroddwyd bod nifer o brosiectau peilot yn cael eu datblygu gyda bwriad o lywio integreiddio yn y dyfodol (ac felly cyllidebau cyfun o bosibl). Fodd bynnag, ers hynny, mae pwyslais cliriach wedi bod gan Lywodraeth Cymru am y disgwyliad i fod â cyllideb gyfun lawn ar waith cyn mis Ebrill 2019.
- 4.4 Fel rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae cronfa rhannu heb risg yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Nid yw hon yn gyllideb gyfun ffurfiol, lle mae cronfeydd yn trosglwyddo rhwng partneriaid ac yn cael eu gweinyddu mewn un lle, yn hytrach mae'n ymarfer i gyfuno gwybodaeth berthnasol a chaniatáu dadansoddi ac adrodd ar wariant yn y rhanbarth. Gallai ffurfio sail cronfa ffurfiol yn y dyfodol pe bai pob partner yn cefnogi'r dull hwnnw.
- 4.5 Mae cwmpas y gronfa rhannu heb risg wedi'i gytuno ymhlith partneriaid i gynnwys yr holl wariant gros gofal preswyl a gofal nyrsio a gomisiynwyd, gan gynnwys gwariant lechyd ar Ofal Nyrsio a Ariannwyd. Mae manylder a fformat data sydd angen ei ddarparu gan bartneriaid wedi'i gytuno ac mae wrthi'n cael ei gasglu a'i gydgrynhoi yn Sir Ddinbych, fel y corff arweiniol ar gyfer yr ymarfer. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at ddarlun wedi'i gydgrynhoi o wariant ar draws y rhanbarth ond bydd hefyd yn caniatáu i ddadansoddiad mwy manwl o'r data sy'n llunio'r cyfanswm rhanbarthol i gael ei gwblhau. Byddai hefyd yn caniatáu, yn y flwyddyn gyntaf, i bob sefydliad partner, a'r rhanbarth, i allu asesu eu sefyllfa wariant mewn perthynas â'u cyllideb cyn unrhyw gronfeydd ffurfiol. Byddai hyn yn amlygu graddfa tanwariant neu orwariant tybiannol sy'n berthynol i gyfraniadau partner a chaniatáu i'r rhanbarth archwilio sut gellid delio â'r rhain mewn cytundeb cyfun ffurfiol.
- 4.6 Mae gofynion ychwanegol neu sydd wedi newid dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data newydd yn cael eu gwirio ar hyn o bryd ac os yw'r cytundebau rhannu data priodol ar waith, caiff data manwl ar gyfer 2017/18 ei gasglu. Bydd hyn yn caniatáu i adroddiad cyfun ar gyfer 2017/18 gael ei gyflwyno i'r bwrdd rhanbarthol ac wedi hynny, y bwriad yw cynhyrchu adroddiad chwarterol. Bydd cadw'r wybodaeth fanwl hefyd yn caniatáu dadansoddiad mwy manwl a allai helpu i lywio strategaeth gomisiynu yn y dyfodol a gofal tymor canolig a chynllunio ariannol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Dylai integreiddio gwell helpu i gefnogi'r flaenoriaeth 'cymunedau gwydn' drwy sicrhau y bydd pobl sydd angen cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn profi gwasanaeth di-dor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae arian penodol wedi'i ddyrannu drwy'r hen Grant Gweddnewid Darpariaeth i gefnogi hyn. Trosglwyddwyd y grant i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2017/18 ac mae wedi'i gronni'n rhanbarthol nawr.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae copi ynghlwm o'r ail asesiad o'r effaith ar les a gynhaliwyd ac er bod y prosiect ar gam cymharol gynnar, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar ffurf cytundeb integreiddio sy'n nodi'r fframwaith i bartneriaid ar draws y rhanbarth i fwrw ymlaen ag integreiddio a chronni cyllidebau. Bydd angen adolygu'r asesiad o effaith yn barhaus a'i ddiwygio wrth i'r prosiect ddatblygu.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Bydd Aelodau yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a datblygiad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Caiff ymgynghoriadau ffurfiol eu gwneud o ran unrhyw ardaloedd penodol o gronni cyllidebau pe baent yn datblygu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid yw'r camau gweithredu sy'n cael eu datblygu yn ffurfio cyllideb gyfun yn yr ystyr ffurfiol ac felly nid yw'n debyg eu bod yn cyflawni gofynion y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n dechrau llunio sylfaen a ellid seilio cyllidebau cyfun yn y dyfodol arno, wrth beidio golygu bod y saith sefydliad partner yn y rhanbarth yn agored i'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â chreu cronfa o'r fath raddfa. Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn y tymor canolig hefyd yn caniatáu i faterion neu broblemau gael eu hamlygu a'u profi mewn cronfa dybiannol, heb gael risg ariannol na gorfod ymgysylltu mewn unrhyw brosesau datrys anghydfodau.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw diffyg cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a cyfarwyddyd gweinidogol diweddar sy'n gofyn bod cyllidebau cyfun yn eu lle erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, bydd y camau gweithredu arfaethedig yn helpu i liniaru risg a chost i bartneriaid, caniatáu cyfnod o ddysgu a datblygu a helpu partneriaid i ystyried mewn ffordd ddeallus y camau gweithredu a fydd yn cefnogi gwasanaethau gwell, di-dor yn y ffordd orau – a allai gynnwys rhagor o integreiddio a chyllidebau cyfun, os yw'n briodol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9.

Mae Adran 7.3, 7.4.1 a 7.15.2 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu o ran y maes gwaith penodol hwn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Pooled Budgets for Health and Social Care

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	304
--------------------	-----

Brief description:	<p>A Regional Pooled Budgets group has been established and is Chaired by Nicola Stubbins, Director of Social Services on behalf of partners. This group has been meeting since the beginning of the year and it is the view of this group and Directors of Social Services that integration and pooled budgets should not be finance-led and that social care and health leaders need to propose areas for integration. In its highlight report in January 2017 the group highlighted areas that could be explored further in relation to integration and pooled budgets which were: - IFSS - Delivering Transformation funding - ICF - Children with complex needs - Carers grant - Regional Safeguarding - Disability equipment stores (essentially developing what's already in place) - Funded Nursing care element of care homes budget There was also a suggestion that some localities may be able to pilot the pooling of care home budgets where services were already integrated such as Ffordd Gwynedd. 4.2 Further work undertaken by the Regional Pooled Budgets group and in its report to the NWRPB in June 2017 it was reported that the group were developing a regional Integration Agreement which would be signed by the 6 Local Authorities and the Health Board with individual schedules developed for each area of integration and pooled budgets which would sit beneath this agreement. The areas confirmed as those to be developed as pooled budgets would be: - Intermediate Care Fund (ICF) – It has been a requirement of the grant to have a Memorandum of Understanding in place however, a Partnership Agreement would strengthen the arrangements in place (and this is what WG is specifying in the Part 9 Guidance) - Carer's grant/services – to initially start with putting a Partnership Agreement around the grant and then look to incorporate other carer's services from April 2018 - Children with complex needs – this area has already been identified as a priority area for integration by the NWRPB - Integrated Family Support Services – this is a requirement in the Act - Community services – Care homes and Domiciliary care – Ffordd Gwynedd</p>
Date Completed:	19/10/2017 10:43:35 Version: 1
Completed by:	Nicola Stubbins
Responsible Service:	Community Support Services
Localities affected by the proposal:	Whole County,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

Could some small changes in your thinking produce a better result?




(3 out of 4 stars)

Actual score : 20 / 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



Main conclusions

This is the second impact assessment undertaken and whilst the project remains at an early stage, significant progress has taken shape in the form of an integration agreement which sets out the framework for partners across the region to take integration and pooling of budgets forward. The impact assessment will need to be continually reviewed and revised as the project develops but consideration will also need to be given to completing individual impact assessments for each integration / pooled budgets pilot flowing from the integration agreement itself.

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	A vision is set out in our Integration Agreement stating our intentions to integrate services and improve outcomes for individuals across the region, however the pilots for pooled budgets that will sit under this agreement have not progressed sufficiently to evaluate the overall impact at this time. The learning from these will shape further development around integration of services and pooled budgets.

Positive consequences identified:

Until the pilots for pooled budgets have progressed further this is unknown at present

Development may result in opportunities for community resilience initiatives

It is unclear as the development of integration and pooled budgets is at an early stage. There will be some pilot developments in localities across North Wales and learning from these will provide a clearer understanding.

It is unclear as the development of integration and pooled budgets is at an early stage. There will be some pilot developments in localities across North Wales and learning from these will provide a clearer understanding.

Until the pilots for pooled budgets have progressed further this is unknown at present

Until the pilots for pooled budgets have progressed further this is unknown at present

Unintended negative consequences identified:

Until the pilots for pooled budgets have progressed further this is unknown at present

Integrating services across Health and Social Care could result in negative impact on current employee terms and conditions

Mitigating actions:

Once the pooled budget pilots have progressed further this impact assessment will be revisited

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	Currently we are not clear about the impact in relation to resilience however we would strive to ensure that any integration and pooling of budgets strengthens community resilience

Positive consequences identified:

It is unclear as the development of integration and pooled budgets remains at an early stage. The pilot developments in localities across North Wales will inform learning and provide a clearer understanding

Unintended negative consequences identified:

Regional working may incur longer travelling times

Mitigating actions:

Unknown at present time

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	To improve outcomes and health and well-being and provide person centred care and support

Positive consequences identified:

The focus of the Social Services and Well-being Act is improving outcomes for citizens to include integration of services for all parts of the populations which includes social and physical environments
Community resilience / early intervention initiatives could include luncheon clubs for the elderly and provision of meals for vulnerable people, however it will depend on which services are agreed to fall within scope

Community resilience / early intervention initiatives could include accessing leisure facilities for different groups in the population - however it will depend on which services are agreed to fall within scope

Improve care and support, ensuring older people with more complex needs and long term conditions, and that citizens who are in need of care and support have voice, choice and control

Integration of health and social care services including the pooling of budgets will provide a mechanism for delivering this

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

Having agreed to enter into an Integration Agreement the partners have expressed commitment to regional integrated working including the pooling of budgets as mandated by law and where it will benefit service users. Consultation with service users and staff so that we deliver the outcome that is right for them.

A more equal Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	To improve care and support, ensuring people have more say and control by providing co-ordinated, person centred care and support

Positive consequences identified:

We deliver integrated services for Children with complex needs, Older people with complex needs, people with learning disabilities and carers. There may be further opportunities to integrate services and pool budgets to improve the well-being of a wider group of people with protected characteristics however they are not currently in scope

As this is integration of health and social care services, health inequalities for areas within scope

should be improved

Using the What Matters within service delivery across Health and Social Care should improve this aspect for individuals

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

Ensuring equity of service position across the region

A Denbighshire of cohesive communities

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Integration should only be undertaken with citizens at the heart of service delivery and integration of services should only be undertaken where there is evidence of better outcomes for citizens.

Positive consequences identified:

Within health and social care services the safeguarding of individuals remains the paramount concern regardless of integration of pooling of budgets

This is a fundamental aspect in providing services within the spirit and ethos of the Act

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

An options appraisal toolkit has been developed regionally to ensure that integration has citizens at the heart of service delivery.

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

Overall Impact	Positive
Justification for impact	People who prefer to receive services in Welsh will do so

Positive consequences identified:

Mwy Na Geiriau requires health and social care services to be delivered in the service users language of choice

Services will be promoted on a bilingual basis, some of the regions business language is Welsh

Utilise events across the region to promote the Welsh culture within health and social care services

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

This may cause issues for staff that are not currently Welsh speakers

A globally responsible Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Utilise local businesses so that they continue to thrive within communities

Positive consequences identified:

There are a number of independent third sector providers locally based within the region who need support to continue to thrive

This is managed within contractual and employment terms and conditions

Providers may have to revisit objectives when we move to a region based approach

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Mehefin 2018
Swyddog Arweiniol:	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Awdur yr Adroddiad:	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl:	Cyd-Bwyllgor Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn ynghylch y trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ar t cynnydd a wnaed tuag at sefydlu cyd-bwyllgor Craffu ffurfiol ar gyfer Cyngorau Conwy a Sir Ddinbych i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn cefnogi sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych;
- 3.2 Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cylch gorchwyl drafft a'r rheolau gweithredu ar gyfer y cyd-bwyllgor craffu.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

- 4.1 Mae Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgor craffu llywodraeth leol yn cael ei ddynodi i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr ardal honno. Y bwriad yw rhoi cyfrifoldeb am herio ac atebolrwydd yn lleol yn hytrach nag ar weinidogion Cymru.
- 4.2 Mae'r Ddeddf yn dweud:

Dylai pob Awdurdod Lleol sicrhau bod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu y pŵer i:

- a) Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;*
- b) Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r bwrdd;*
- c) Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;*

- d) Ystyried materion sy'n ymwneud â'r bwrdd gan y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio ato ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; ac
- e) Chynnal swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r bwrdd a orfodir arno gan y Ddeddf.

- 4.3 Yn gynnar yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Ddeddf a sefydlodd y BGC. O ran y trefniadau craffu ar gyfer y BGC mae'r cyfarwyddyd yn dweud:

“Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, mae gofyniad i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mater i'r awdurdod lleol unigol fydd penderfynu ar ei drefniadau craffu ar gyfer y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'n aelod ohono. Er enghraifft, gellir defnyddio pwerau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i roi trefniadau ar y cyd ar waith, fel 'cyfethol' pobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod i eistedd ar y pwyllgor a lle bo'n briodol, penodi cydbwyllgorau sy'n rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol.

Er y bydd yn parhau i fod yn hollol gyfreithlon i bwyllgor craffu pwnc (megis pwyllgor craffu plant a phobl ifanc) graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â mater penodol, mae'n bwysig fod gan un pwyllgor drosolwg cyffredinol ar effeithiolrwydd y bwrdd. Dyma pam fod yn rhaid i un pwyllgor gael ei ddynodi i ymgymryd â'r gwaith hwn.”¹

- 4.4 I gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, mae cynghorau Conwy a Sir Ddinbych yr un wedi dewis un o'u pwyllgorau Craffu i fod eu pwyllgor Craffu BGC. Ar gyfer Sir Ddinbych, y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yw hyn.
- 4.5 Erbyn Awst 2017 roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar graffu BGC (ynghlwm fel atodiad 1).

Sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu

- 4.6 Barn y BGC ym mis Medi 2017 oedd mai cyd-bwyllgor Craffu fyddai'r cerbyd mwyaf priodol i graffu bwrdd traws sirol/ bwrdeistref sirol strategol fel y BGC. Cafodd cynigion i sefydlu cyd-bwyllgor o'r fath ei ystyried gan yr awdurdodau lleol yn 2016 ac ar y pryd penderfynodd aelodau etholedig yn erbyn defnyddio cyd-bwyllgor.
- 4.7 Mae'r grwpiau cydlynu Craffu a'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yng nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych nawr wedi ystyried a chytuno gyda'r sylwadau a gyflwynwyd gan y BGC i sefydlu cyd-bwyllgor ac maent wedi cadarnhau cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymgynghori pellach. Mae'r ddogfen hon ynghlwm fel Atodiad 2.
- 4.8 Gofynnir am farn y BGC ar y cylch gorchwyl drafft mewn cyfarfod o'r BGC ar 19 Mehefin a bydd yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor. Rhagwelir bydd cylch gorchwyl drafft terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y ddau gyngor ym mis Hydref, ac os caiff ei gymeradwyo, bydd cyd-bwyllgor Craffu yn cael ei sefydlu'n ffurfiol.

¹ <http://gov.wales/docs/desh/publications/160225-spsf-3-collective-role-en.pdf> Rhannu Pwroas: Rhannu Dyfodol Canllaw Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, SPSF 3: Rôl gyfunol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus) Llywodraeth Cymru, 2016

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r argymhellion yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r Blaenoriaethau Corfforaethol ond datblygwyd Cynllun Corfforaethol y Cyngor mewn ymgynghoriad â sefydliadau partner, gan gynnwys y partneriaid BGC. Mae gan Gynllun Lles y BGC a Chynllun Corfforaethol y Cyngor nodau a gweithgareddau sy'n ategu eu gilydd.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y prif gostau yw'r costau staffio a fyddai eu hangen gan y cydbwyllgor newydd mewn perthynas â chefnogaeth swyddogaeth pwyllgor a chraffu. Cyfeirir at y rhain yn y cylch gorchwyl drafft sy'n amlinellu y gellir talu am y gefnogaeth hon o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes o fewn Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ddau awdurdod yn darparu cefnogaeth ar gyfer y BGC hefyd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les gan fod yr adroddiad hwn yn rhan o broses ymgynghori ar gynigion i sefydlu pwyllgor craffu. Fodd bynnag, bydd cyflwyno model Craffu mwy effeithiol ar gyfer y BGC yn cyfrannu at y BGC yn cyflawni ei rôl statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Disgwylir i drefniadau Craffu awdurdod lleol i:

- Dderbyn yr Asesiad Lles a'r Cynllun Lles gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gweithredu fel ymgynghorai statudol ar gyfer yr Asesiad Lles a Chynllun Lles
- Adolygu'r Cynllun Lles os gofynnir gan Weinidog Cymru (sydd â phŵer i Atgyfeirio ond nid i gymeradwyo)

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd â'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cefnogi creu cyd-bwyllgor Craffu ffurfiol. Mae grŵp cydlynu Craffu Cyngor Conwy, ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyd wedi rhoi eu cefnogaeth hefyd.

8.2 Ymgynghorir â'r BGC ar y cylch gorchwyl drafft ar 19 Mehefin 2018 a chynllunnir ymgynghori pellach gyda Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Sir Ddinbych cyn y ceir penderfyniad gan y Cyngor Llawn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r adnoddau i gefnogi'r cyd-bwyllgor Craffu arfaethedig yn dod o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes yng Nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych. Gall cydweithio o'r fath ddioddef os oes diffyg eglurder o ran rolau a disgwyliadau neu os nad yw'r partneriaid wedi ymrwymo i'r cydweithio. Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn, mae cylch gorchwyl a rheolau gweithredu manwl wedi cael eu drafftio, ac mae aelodau etholedig gyda rolau Craffu amlwg o'r ddau gyngor a'r BGC wedi bod yn rhan mewn datblygu'r cynigion a'r cylch gorchwyl.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad 1

Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu
Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau
Wasanaethau Cyhoeddus

Awst 2017



Roedd yn bleser cynhyrchu'r canllawiau i awdurdodau lleol ar graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ei gynhyrchu, yn enwedig rhwydwaith y swyddogion craffu Cymru am eu mewnbwn, dadansoddi a mireinio.

Rhagair gan y Gweinidog




Rwyf yn falch o gyflwyno'r canllawiau hyn ar gyfer pwyllgorau craffu awdurdodau lleol ar graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Y neges allweddol o'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw i gyrrff cyhoeddus ddod at ei gilydd i gyflawni gwelliannau mewn lles pobl a chymunedau yng Nghymru. Rhan bwysig o hyn yw ar gyfer cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu cyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion llesiant.

Bwriad y canllawiau hyn i helpu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i ddarparu atebolrwydd ac i gefnogi datblygu a gwella o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus trwy rannu profiadau a dysgu.

Mae'r ffordd gydweithredol newydd hon o weithio yn heriol i ni i gyd ond y gwobrau, ar ffurf cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am wella a chyfoethogi bywydau dinasyddion yng Nghymru yn enfawr.

Hoffwn ddiolch i Rebecca David Knight am ei gwaith diwyd a thrylwyr ar y canllawiau hyn a gobeithiaf mae'n darparu canllaw defnyddiol ac addysgiadol ar gyfer y gymuned graffu.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Y'r Athro Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol



Cyflwyniad

Anelir y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Daeth y Ddeddf yn gyfraith ar 29 Ebrill 2015 a daeth yn ofyniad ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru o 1 Ebrill 2016. Mae yn rhoi cynaliadwyedd tymor hir yn flaenllaw o sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u darparu, ac yn rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd i atal a datrys problemau.

Mae'r Ddeddf yn diffinio cyrff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy" fel y corff sydd ei angen i weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod y "anghenion y presennol yn diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain". Mae'n darn o ddeddfwriaeth nodedig yn rhoi pwyslais ar ymddygiad sefydliadol yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth fel sbardun allweddol i newid hirdymor mewn ardaloedd lleol.

Mae'r Ddeddf yn pennu saith amcan llesiant cenedlaethol sydd am gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r amcanion yn cynrychioli gweledigaeth a rennir ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at. At hynny, mae'r Ddeddf yn gwneud yn glir rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig gweithio i gyflawni'r **holl** amcanion, nid dim ond un neu ddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol cynhwysfawr ar Ddeddf "Rhannu diben: rhannu dyfodol" sy'n disgrifio yn fanwl y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus. Mae'r canllawiau ar gael [yma](#).

Yn dymuno i gefnogi modelau craffu llywodraeth leol sy'n hwyluso cydweithio effeithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ganolfan craffu cyhoeddus (CfPS) i ddatblygu canllawiau sy'n manylu cyfraniad i graffu llywodraethu byrddau gwasanaethau cyhoeddus a threfniadau darparu.


Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Ddeddf yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, byrddau ieuchyd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau tân ac achub. Rhaid i bob bwrdd ymgymryd ag asesiad llesiant lleol i lywio cynllun llesiant lleol, sy'n manylu ar sut bydd eu hardal yn cyflawni egwyddor datblygu cynaliadwy wrth weithio tuag at y amcanion llesiant cenedlaethol saith.

At hynny, rhaid i byrddau gwasanaethau cyhoeddus wahodd sefydliadau gwirfoddol perthnasol ynghyd â Gweinidogion Cymru, y Comisiynydd Heddlu a throseddau a'r Prif gwnstabl lleol i gymryd rhan ar y Bwrdd.

Er mwyn sicrhau bod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol yn ddemocrataidd, mae y Ddeddf yn gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a chraffu i graffu ar waith y BGC. O dan y darpariaethau a gynhwysir yn y Ddeddf, mae pwyllgorau trosolwg a chraffu bwerau helaeth i adolygu trefniadau llywodraethu y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau a wneir neu gamau a gymerwyd gan y BGC.. Yn ogystal, darperir pwyllgorau trosolwg a chraffu â phwerau adrodd sylweddol ac ei bod yn ofynnol i rannu copiâu o unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wnaed mewn cysylltiad â swyddogaethau bwrdd neu trefniadau llywodraethu gyda Gweinidogion Cymru, y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rhagofyniad i waith craffu llywodraeth leol effeithiol yw deall y diffiniad cyfreithiol o amcanion a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y amcanion llesiant yn cael eu hatgynhyrchu isod. Mae trafodaeth am egwyddor datblygu cynaliadwy am ei fod ymwneud â gwaith ymarferol o bwyllgorau trosolwg a chraffu yn ddiweddarach yn y ddogfen.



Beth yw diben y canllawiau ? Ar gyfer pwy ?

Mae'r canllawiau yn nodi'r cyngor ymarferol ar gyfer trosolwg ac ymarferwyr craffu wedi'i seilio ar werthusiadau o'r mecanweithiau atebolrwydd byrddau gwasanaethau lleol blaenorol, arferion gwasanaethau cyhoeddus, byrddau trefniadau trosolwg a chraffu, ac ymchwil ar lywodraethu partneriaeth fwy cyffredinol.

Mae hefyd yn ceisio darparu ymarferwyr gyda dealltwriaeth o ddiben craffu partneriaeth strategol yn fwy cyffredinol drwy awgrymu cyfres o ganlyniadau y dylai weithio tuag at. Gall fod yn wir bod aelodau etholedig, swyddogion y Cyngor neu'r partneriaid yn deall y

cyfleustodau neu ddilysrwydd atebolrwydd dan arweiniad awdurdodau lleol, a dyna pam y gwnaed ymdrechion i nodi pa effaith gadarnhaol bydd craffu Llywodraeth Leol penodol yn gallu arwain at. I fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod pawb sy'n gysylltiedig yn deall ac yn croesawu'r gwerth gwaith craffu.

Felly, mae'n bwysig pwysleisio y dylai pob awdurdod lleol datblygu trefniadau sy'n bodloni amgylchiadau lleol orau. Mae hyn yn bwysig o ystyried ffocws y Ddeddf ar ddefnyddio adnoddau sy'n seiliedig ar **waith** i gyflawni'r newid sy'n seiliedig ar **le**.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ganllawiau statudol. Fodd bynnag, methiant i ystyried egwyddorion llywio gan arfer da yn debygol o arwain at systemau craffu a diffyg effaith ac annigonol i gefnogi BGC fel partneriaeth strategol. Ymhlith y risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau llywodraethu cydweithredol gwael yw gwneud penderfyniadau wedi'i gwanhau, cymhlethdod ychwanegol, atebolrwydd tameidiog, diffyg tryloywder a chanlyniadau lles gwaeth.

Egluro swyddogaeth strategol o graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r canllawiau statudol "Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol 3 – rôl ar y cyd (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)" yn nodi fod y Ddeddf Llesiant yn dibynnu'n bennaf ar pwyllgorau trosolwg a chraffu Llywodraeth Leol i sicrhau **gwelliant parhaus** mewn cynllunio integredig lleol¹. Mae'n nodi bod trosolwg a chraffu awdurdod lleol yn y modd y mae'r Ddeddf yn sicrhau atebolrwydd democrataidd ar gyfer gwaith partneriaeth lleol².

Fel y cyfryw diben trosolwg a chraffu BGC yw cymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd drwy ddarparu her ddemocrataidd. Fodd bynnag, i helpu cynghorau i ddatblygu trefniadau unigol, mae'n bwysig darparu eglurhad ynghylch sut mae trosolwg llywodraeth leol a chraffu yn gallu ychwanegu gwerth i gydweithio i ddeall yn well y ffactorau sy'n sail i arferion effeithiol.

Beth yw diben trosolwg a chraffu BGC ? Beth sydd ei angen i'w gyflawni ?

Mae ymchwil i wahanol fathau o lywodraethu partneriaeth a rhaglenni newid sy'n seiliedig ar leoliad yn nodi y gall manteisio ar werth cynrychioladol o rôl aelodau etholedig fel arweinwyr cymunedol yn arwain at effeithiau buddiol canlynol ar gyfer partneriaethau:

- 1. Ddarpariaeth o le cefnogol ar gyfer myfyrio ac hunan ddadansoddi:** yn ymchwilio i ba raddau y gellir dweud bod gweithgarwch BGC yn arwain at 'mantais gydweithredol' fel y mae'n ymwneud â saith amcan llesiant a pum ffordd o weithio, gall trefniadau trosolwg a chraffu Llywodraeth Leol rhoi cefnogaeth i dalu sylw at cysylltiadau partneriaeth. Gall craffu ddiduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn annog adlewyrchiad a myfyrio ar effaith ymddygiadau gwahanol ar berfformiad cyffredinol y BGC, annog adborth a thrafodaeth agored ar bob lefel.

¹ "Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)" paragraff 173.

² "Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)" Paragraff 174.

2. **Gwell atebolrwydd democrataidd a thryloywder gwell** : Mae cynghorau yn deillio o'u 'awdurdod lleol' cyfreithlondeb democrataidd o aelodau etholedig. Yn agosach ceir atebolrwydd i ddinasyddion, yn fwy credadwy a dilys y daw yn ceisio bod yn atebol yn gyhoeddus gan y rhai â grym. Mae partneriaeth craffu yn darparu gwiriad gadarn a cydbwysedd i wneud penderfyniadau ar y cyd drwy brofi rhagdybiaethau, edrych ar risgiau a herio sut y caiff adnoddau eu blaenoriaethu. Gwella tryloywder yn y ffordd hon gall helpu BGC nodi sut i alinio adnoddau, gwasanaethau a sefydliadau o amgylch anghenion pobl a lleoedd yn well.
3. **Ffocws cryfach ar wella bywydau dinasyddion lleol** : Yn egluro gwahanol gyfraniadau i gyflenwi ac yn ceisio gwella gwasanaethau o safbwynt y dinesydd, gall trosolwg a chraffu helpu byrddau gwasanaethau cyhoeddus a pharhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyd. Gall her leol helpu i benderfynu p'un yw Byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn hwyluso dulliau gweithredu system gyfan i broblemau cyffredin neu cyfyngiadau profiad partneriaid yn wrthgynhyrchiol i weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Gall dealltwriaeth ddyfnach o'r materion hyn helpu i ddatblygu ffurflenni 'Rhwydweithiol' mwy atebol ar lefel leol a chenedlaethol sy'n cefnogi gweithredu'r Ddeddf yn well.
4. **Trawsnewid drwy ymgysylltu cyhoeddus ddyfnach ar leoedd** : Aelodau etholedig yn gallu sianelu ystod eang o wybodaeth gymunedol i'r broses gwneud penderfyniad. Drwy eu rôl maent yn gallu gwahodd, awdurdodi a gyfreithloni'r cyfraniadau rhanddeiliaid fel ffurf llorweddol yn hytrach na fertigol o atebolrwydd. Gall hyn helpu i newid pwyslais y cydbwysedd grym rhwng gwasanaethau a dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Nid yn unig yn gallu helpu y BGC a sicrhau bod gwasanaethau yn fwy ymatebol i angen lleol a dyhead ond, yn galluogi symudiadau mewn persbectif i ddiwydd , gellir nodi asedau ac adnoddau newydd.

Mae ymchwil yn dweud wrthym bod atebolrwydd o fewn amgylcheddau partneriaeth yn gymhleth a gall y methiant i ddeall yn iawn sut y mae asiantaethau atebolrwydd yn gweithio gyda'i gilydd arwain at sefyllfaoedd sy'n amharu ar gydweithredu effeithiol³. Ar y llaw arall, mae mathau 'meddalach' o atebolrwydd fel trosolwg a chraffu lleol sydd wedi'u seilio mewn cyd-destun lleol ac sy'n ceisio defnyddio'r her archwiliadol i gryfhau gweithio mewn partneriaeth, gall hyn helpu byrddau gwasanaethau cyhoeddus ymgorffori diwylliant o gyfrifoldeb yn ei weithgareddau a'i ffyrdd o weithio.

Beth mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus, o ran atebolrwydd, i trosolwg a chraffu ?

Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC) yn atebol i bwyllgorau trosolwg a chraffu mewn perthynas â sut maent yn gweithio ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyrraedd y amcanion llesiant unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

Wrth ddatblygu trefniadau trosolwg a chraffu BGC , fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gorgyffwrdd rhwng swyddogaethau aelodau'r Bwrdd fel cyrff cyhoeddus o dan y

³ Office for Public Management, Total Place – Lessons Learnt, 2009, p 3.

darpariaethau a geir yn rhan 2 o'r Ddeddf, a swyddogaethau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni ar y cyd fel aelodau o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a geir yn rhan 4 o'r Ddeddf. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y gofyniad ar gyrrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i weithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n ystyried cydweithredu ac integreiddio yn ganolog i gyflawni'r amcanion llesiant lleol dyfnach.

Dangosir hyn yn fwyaf amlwg o fewn y Ddeddf yn adran 7(2) sy'n darparu y caniateir cynnwys amcanion llesiant corff cyhoeddus sydd hefyd yn aelod o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yng nghynllun llesiant lleol y Bwrdd hwnnw. Wrth benderfynu pa bwyllgorau trosolwg a chraffu gall y BGC ddal yn atebol erbyn, fodd bynnag, codir cwestiynau pwysig ynghylch pwy sydd berchen ar amcanion llesiant 'ar y cyd' a phwy sy'n gyfrifol yn y pen draw ar gyfer eu cyflawni. Mae partneriaid hefo nifer o gyfrifoldebau ond ni ddylai rhannu cyfrifoldebau hyn olygu llai o atebolrwydd.

Wrth ystyried y rolau yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel y maent yn ymwneud â sicrhau bod y dyletswyddau statudol cyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni, mae'n hollbwysig bod trosolwg a chraffu Llywodraeth Leol yn rhan o 'eco-system atebolrwydd' sy'n cynnig dull gydgefnogol i lywodraethu. Byddwn yn trafod y materion hyn yn fanylach pan ystyriwn pwerau pwyllgorau craffu yn edrych ar berfformiad byrddau gwasanaethau cyhoeddus a goblygiadau'r methodolegol benderfynu ar 'gwerth ychwanegol' a ddaeth yn sgîl y BGC fel partneriaeth statudol..

Swyddogaethau a chyfrifoldebau byrddau gwasanaethau cyhoeddus

Pennod 2, adran 36 o'r Ddeddf yn nodi swyddogaethau byrddau gwasanaethau cyhoeddus sydd i;

- Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal,
- Gosod amcanion lleol a gynlluniwyd i uchafu cyfraniad y Bwrdd tuag at gyrraedd y amcanion llesiant,
- Cyhoeddi cynlluniau llesiant lleol yn pennu eu hamcanion lleol a sut y mae aelodau o'r Bwrdd (trwy gweithredu eu swyddogaethau ar y cyd) yn bwriadu gymryd pob cam rhesymol i fodloni amcanion lleol.

Mae adran 36 (3) yn pennu bod gwasanaethau cyhoeddus a byrddau sy'n ofynnol i gyflawni ei swyddogaethau yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy weithiau cyfeirir atynt fel y sydd wedi'i ddiffinio yn adran 5 o'r Ddeddf ac wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

Egwyddor datblygu cynaliadwy

1. Angen pwysigrwydd cydbwysu tymor byr gyda'r angen i **ddiogelu y gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir**, enwedig pan gall pethau a wneir i ddiogelu anghenion tymor byr gael effaith hirdymor andwyol;
2. Yr angen i gymryd ymagwedd **integredig**, drwy ystyried y canlynol -
 - (i) gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant;
 - (ii) Mae amcanion llesiant bod y corff yn effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion **cyrff cyhoeddus eraill**, yn arbennig pan y gall camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond fod yn niweidiol i gyfarfod un arall;
3. Y pwysigrwydd o **gynnwys personau eraill** sydd â diddordeb mewn cyflawni amcanion llesiant ac o sicrhau bod y personau hynny yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth;
4. Sut y gallai weithredu ar y **cyd** ag unrhyw berson arall (neu sut mae gwahanol rannau o'r corff yn gweithio gyda'i gilydd) gynorthwyo corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo **corff arall** i gyflawni ei amcanion;
5. Sut gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff, neu amcanion **corff arall**.

O safbwynt atebolrwydd, mae'r Ddeddf yn unigryw yn pwysleisio bod y broses o gweithio mewn partneriaeth drwy egwyddor datblygu cynaliadwy yn **ganolog** i gynnydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio tuag at amcanion llesiant. Mae'r camau sydd yn cael eu gweithredu gan partneriaid fel 'gyrff cyhoeddus' o dan ofynion y Ddeddf yn cael effaith uniongyrchol ar effeithiolrwydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fel corff corfforaethol. Gall hyn yn ei gwneud yn anodd i bwyllgorau trosolwg a chraffu i benderfynu ar y gwerth ychwanegol a ddaw yn sgîl gweithio ar y cyd.

Fel y cyfryw, wrth gyflawni ei swyddogaethau atebolrwydd, dylai pwyllgorau beidio â cholli golwg ar yr angen i archwilio cyfraniad aelodau BGC unigol fel y mae'n ymwneud â pherfformiad cyffredinol y BGC ei hun. Bydd y dull hwn yn ystyried lefelau ymrwymiad partneriaeth i weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn golygu bod angen cydlynu gweithgareddau gyda tystiolaeth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r dyfodol.

Archwilio pwerau pwyllgorau trosolwg a chraffu Llywodraeth Leol

Mae'r Ddeddf yn darparu sail ddeddfwriaethol y gall pwyllgorau trosolwg a chraffu Llywodraeth Leol gweithredu fel sbardun grymus o weithio cydweithredol sy'n seiliedig ar le. Mae gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i sicrhau bod Pwyllgor trosolwg a Chraffu pŵer dynodedig i;

(a) adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

(b) adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu y Bwrdd;

(c) cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;

(d) ystyried materion yn ymwneud â Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio ato ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; ac

(e) cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â Bwrdd a osodir arno gan y Ddeddf.

Wrth weithredu ei bwerau, gall pwyllgorau trosolwg a chraffu **ei gwneud yn ofynnol** i aelodau y BGC (neu gynrychiolydd dynodedig) i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i roi esboniad mewn ymateb i linellau Pwyllgor o'r ymchwiliad.

